Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Wirfoddol Reoledig Cilgerran
**Cilgerran**
**Aberteifi**
**Sir Penfro**
**SA43 2SB**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**
**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 02/05/2013**

## Cyd-destun

Ysgol Gynradd dan Reolaeth Wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru yw Ysgol Gynradd Cilgerran. Lleolir yr ysgol ym mhentref Cilgerran yng ngogledd Sir Benfro. Mae’r ysgol yn gwasanaethu ardaloedd Bridell, Pen-y-bryn, Rhoshill a Chapel Newydd. Daw o dan ofal awdurdod lleol Sir Benfro.

Mae 139 o ddisgyblion ar y gofrestr sy’n cynnwys 25 o ddisgyblion oed meithrin rhan-amser. Mae’r disgyblion wedi eu rhannu yn chwe dosbarth. Yn ôl yr ysgol, daw’r disgyblion o gefndir cymdeithasol cymysg. Ar hyn o bryd, tua 11% o’r disgyblion sy’n hawlio prydau bwyd ysgol am ddim, sy’n sylweddol is na’r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Tua 39% o’r disgyblion ddaw o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Yn unol â pholisi’r awdurdod lleol, defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng addysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Yng nghyfnod allweddol 2, addysgir y disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg a’r Saesneg gyda’r nod o gael y disgyblion yn ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i’r ysgol uwchradd yn 11 oed.

Mae tua 27% o’r disgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol, ac yn derbyn cymorth ychwanegol yn yr ysgol, gan gynnwys nifer fach o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym mis Chwefror 2007.

Dechreuodd y pennaeth presennol yn ei swydd ym mis Ionawr 2009.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd dan Reolaeth Cilgerran yn 2012-2013 yw £3,466. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Sir Benfro yw £5,870 a'r lleiafswm yw £3,138. Mae Ysgol Cilgerran yn safle 45ain o'r 61 ysgol gynradd yn Sir Benfro o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Anfoddhaol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- bod mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu;
- bod disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llythrennedd;
- bod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da; a
- bod athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol briodol ac yn cynllunio amrywiaeth o brofiadau dysgu diddorol.

Fodd bynnag:

- mae canlyniadau disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 dros gyfnod yn is nag mewn ysgolion tebyg a ffigyrau Cymru;
- mae canlyniadau disgyblion cyfnod allweddol 2 wedi bod yn gyson yn yr 50% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran y canran sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim dros bedair blynedd;
- nid yw disgyblion mwy abl yn gwneud digon o gynnydd mewn mathemateg, gwyddoniaeth, Cymraeg na Saesneg; ac
- mae ymddygiad lleiafrif sylweddol o ddisgyblion ar waelod cyfnod allweddol 2 yn afreolus.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn anfoddhaol oherwydd:

- nad yw arweinwyr yn meddu ar weledigaeth glir ar gyfer datblygiad strategol yr ysgol;
- nad oes gweithdrefnau digon effeithiol yn eu lle i adnabod cryfderau'r ysgol a meysydd i'w datblygu;
- nad oes tystiolaeth bod cynlluniau gwella presennol na blaenorol yr ysgol wedi bod yn effeithiol o ran sicrhau gwelliannau; ac
- nad yw'r ysgol wedi gwneud digon o gynnydd yn erbyn argymhellion yr arolygiad diwethaf.

## Argymhellion

A1 Codi safonau disgyblion cyfnod allweddol 2 yn y pynciau craidd

A2 Gwella ymddygiad carfan benodol o ddisgyblion

A3 Darparu tasgau priodol i ymestyn y disgyblion mwy abl

A4 Sicrhau bod ystod o strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn cael eu gweithredu'n gyson ar draws yr ysgol

A5 Cryfhau'r gweithdrefnau rheolaeth ac arweinyddiaeth ar bob lefel

A6 Sicrhau bod gweithdrefnau hunan arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant yn gynhwysfawr ac yn arwain at welliannau penodol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn bod angen mesurau arbennig mewn perthynas â'r ysgol hon.  Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol bob tymor.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg. Mae llawer yn medru darllen eu llyfrau darllen a gwaith eu hunain i safon sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Maent yn medru ysgrifennu at wahanol bwrpasau, gan ddangos gafael briodol ar sillafu ac atalnodi syml.

Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn medru siarad am eu gwaith yn hyderus. Gallant fynegi barn am wahanol faterion sydd o ddiddordeb iddyn nhw a thrafod syniadau newydd yn briodol. Mae'r mwyafrif yn darllen deunyddiau pwrpasol ar goedd yn lled ystyrlon yn y Gymraeg a'r Saesneg. Er hynny, mae cofnodion yr ysgol yn dangos mai dim ond tua hanner y disgyblion sydd ag oed darllen sy'n cyfateb i, neu'n uwch na, eu hoed cronolegol. Mae'r rhan fwyaf yn gallu ysgrifennu'n estynedig i ystod o bwrpasau yn y ddwy iaith. Maent yn atalnodi'n lled gywir, yn defnyddio cystrawen briodol ac yn cyflwyno eu gwaith yn drefnus mewn paragraffau. Er hynny, mae sillafu llawer yn wallus. Yn groes i bolisi iaith yr ysgol, mae lleiafrif sylweddol o'r disgyblion yn defnyddio'r Saesneg yn hytrach na'r Gymraeg yn ystod amser egwyl ac ar adegau anffurfiol o fewn dosbarthiadau.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cadarn ond nid yw'r disgyblion mwy abl ar draws cyfnod allweddol 2 yn gwneud digon o gynnydd mewn mathemateg nac yn y ddwy iaith.

Yn 2012, roedd y ganran o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig mewn medrau iaith, mathemateg a phersonol mewn cyfuniad (y dangosydd Cyfnod Sylfaen) yn sylweddol is o'i gymharu â chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a Chymru. Roedd cyfartaledd y disgyblion a gyflawnodd yn uwch na'r lefel ddisgwyliedig ychydig yn uwch na chyfartaledd y teulu a Chymru mewn datblygiad iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg, ond yn is mewn datblygiad mathemategol a phersonol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol.

O gymharu canlyniadau diwedd y Cyfnod Sylfaen â chanlyniadau ysgolion tebyg o ran y canran o ddisgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, roedd yr ysgol yn perfformio yn yr 50% isaf ar gyfer medrau iaith, ac yn y 25% isaf o ran medrau mathemategol a medrau personol.

Yng nghyfnod allweddol 2, roedd y ganran o ddisgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig neu uwch mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad (y dangosydd pwnc craidd) yn 2012 yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a Chymru. Bu'r tuedd yn anwastad dros y pedair blynedd ddiwethaf.

Mae'r canran sy'n cyflawni'n uwch na'r lefel ddisgwyliedig yn is na chyfartaledd y teulu a chyfartaledd Cymru yn y pedwar pwnc.

O gymharu canlyniadau'r ysgol ar gyfer y lefel ddisgwyliedig ag ysgolion tebyg o ran y canran o ddisgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, roedd perfformiad yr ysgol yn yr 50% isaf ar gyfer y Saesneg a'r Gymraeg, ac yn y 25% isaf mewn mathemateg a gwyddoniaeth yn 2012.

Dros gyfnod o bedair blynedd, nid oes patrwm amlwg o wahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn o gymharu â merched, nac ychwaith o gymharu disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim gyda'r gweddill.

**Lles: Digonol**

Mae gan y disgyblion ddealltwriaeth briodol o bwysigrwydd bwyta'n iach ac ymarfer y corff yn rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy y dylent droi am gyngor os ydynt yn poeni neu'n gofidio.

Mae mwyafrif y disgyblion yn cyfranogi'n briodol yn eu dysgu ac yn mwynhau ystod o brofiadau yn eu gwersi. Mae bron pob disgybl yn meithrin hyder drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned leol, er enghraifft cyngherddau, gwasanaethau a gweithgareddau mudiad yr Urdd.

Mae canran presenoldeb presennol yr ysgol, sef tua 94%, yn yr 50% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran y canran sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim. Mae prydlondeb y disgyblion yn dda.

Mae mwyafrif y disgyblion yn cydweithio'n dda ag eraill ar draws yr ysgol. Mae aelodau'r cyngor ysgol ac eco yn weithgar ac yn deall eu bod yn cynrychioli safbwynt disgyblion eraill o fewn cymuned yr ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn dangos gofal a pharch tuag at eu cyfoedion ac oedolion. Er hynny, mae yna leiafrif sylweddol o ddisgyblion ar waelod cyfnod allweddol 2 sy'n gyson yn afreolus ac yn dangos diffyg parch tuag at eraill. Mae llawer yn cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd a'u gwaith, ond nid yw gallu lleiafrif y disgyblion i wella eu gwaith eu hunain wedi datblygu'n ddigonol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r athrawon yn cynllunio amrywiaeth o brofiadau dysgu sy'n llwyddo i ennyn diddordeb y mwyafrif o'r disgyblion. Mae athrawon y Cyfnod Sylfaen yn cyfarfod yn rheolaidd i gynllunio rhaglenni gwaith priodol. Mae hon yn nodwedd gref o waith yr ysgol. Fodd bynnag, mae'r dulliau cynllunio yn gymharol newydd yn nghyfnod allweddol 2 ac nid ydynt hyd yn hyn wedi cael digon o amser i effeithio'n gadarnhaol ar safonau. Nid yw'r gweithdrefnau ar gyfer nodi ac herio disgyblion mwy abl yng nghyfnod allweddol 2 wedi cael eu datblygu'n ddigonol yn y cynlluniau tymor byr.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth yn datblygu'n briodol, gyda'r ymdrech i godi safonau mewn darllen yn dechrau cael effaith gadarnhaol.

Mae darpariaeth addas ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o ddiwylliant a thraddodiadau Cymru. Mae'r elfen hon yn gryfder yn yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn gadarn. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd priodol ar gyfer addysgu'r disgyblion am fentergarwch. Er enghraifft, mae disgyblion wedi bod yn weithgar yn gwerthu planhigion mewn Gŵyl Fenter yn Hwlffordd er mwyn cynilo arian i adeiladu tŷ haul o boteli plastig ar dir yr ysgol.

**Addysgu: Digonol**

Mae'r athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol briodol. Mae athrawon y Cyfnod Sylfaen yn cyflwyno cwricwlwm sy'n seiliedig ar brofiadau chwarae plant yn llwyddiannus. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ac mae cydweithio effeithiol rhwng yr athrawon a'r staff cefnogi sy'n darparu cefnogaeth briodol i'r disgyblion. Mae athrawon cyfnod allweddol 2 wedi derbyn mewnbwn sylweddol yn ddiweddar sydd wedi eu galluogi i fireinio'u cynllunio tymor byr i sicrhau bod gwell dilyniant a pharhad i'w gwersi.

Yn y lleiafrif o wersi lle mae'r addysgu'n dda, mae gan yr athrawon a'r staff cefnogi ddealltwriaeth gadarn o'r cwricwlwm a strategaethau addysgu. Maent yn sicrhau bod ystod o ddulliau addysgu yn hyrwyddo'r dysgu'n effeithiol. Mae'r gwersi yn symud ar gyflymder priodol a'r gweithgareddau a ddarperir yn ddiddorol.

Ym mwyafrif y gwersi lle mae'r addysgu'n llai effeithiol, nid yw'r tasgau bob amser yn herio disgyblion mwy abl i gyflawni hyd orau eu gallu. Nid yw'r athrawon yn gadael digon o amser i ddisgyblion feddwl cyn ymateb i her, sy'n cael effaith andwyol ar ddatblygiad eu medrau meddwl.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu ar waith, ond anghyson yw'r defnydd effeithiol ohonynt ar draws yr ysgol. Mae'r athrawon yn marcio'n rheolaidd, ond nid yw eu sylwadau ar waith y disgyblion bob amser yn ddigon manwl i sicrhau bod unigolion yn deall beth sydd angen ei wneud er mwyn gwella. Mae trefniadau ar gyfer gosod targedau yn dechrau datblygu, er hynny nid ydynt bob amser yn ddigon penodol nac yn ddigon heriol.

Mae staff yn defnyddio ystod o brofion a thasgau priodol er mwyn asesu gwaith disgyblion yn rheolaidd. Maent yn tracio cynnydd yn drefnus ac yn gwneud peth defnydd o'r data er mwyn darparu'n briodol ar gyfer unigolion a grwpiau penodol. Mae trefniadau trylwyr ar waith i safoni a chymedroli asesiadau athrawon.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol**

Mae awyrgylch gofalgar yn yr ysgol, sy'n rhoi pwyslais ar les disgyblion. Mae staff yn sicrhau bod disgyblion yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn gwybod beth i'w wneud pe bai achosion o fwlio yn codi. Mae perthynas waith gadarn yn bodoli rhwng y rhan fwyaf o'r disgyblion a'r oedolion, sydd wedi'u seilio ar barch a chwrteisi. Mae staff yr ysgol yn hyrwyddo cwrteisi'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y disgyblion yn ymddwyn yn briodol ac yn dangos parch tuag at eraill. Mae disgyblion gwaelod cyfnod allweddol 2 yn derbyn y cyfle i fynychu Clwb Parchu Pawb sy'n hybu medrau cymdeithasol gyda'r nod o gael effaith bositif ar unrhyw ymddygiad gormesol. Er hynny, nid yw hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad lleiafrif y disgyblion hyd yn hyn.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad personol rhan fwyaf y disgyblion yn briodol, gan gynnwys eu datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos gyda'r awdurdod lleol, y gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd, a swyddog cyswllt yr heddlu er mwyn hyrwyddo lles disgyblion.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodoli gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae darpariaeth gadarn ar gyfer y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae gweithdrefnau yn eu lle i fynd i'r afael â phryderon ynglŷn â chynnydd disgyblion unigol ac i hysbysu rhieni am gynlluniau addysg unigol eu plant. Fodd bynnag, mae'r cyfleoedd i rieni gyfrannu at adolygu'r cynlluniau hyn yn anghyson.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos cynhwysol yn yr ysgol ac mae ystod briodol o bolisïau a gweithdrefnau yn eu lle i hyrwyddo cydraddoldeb a hawl gyfartal i'r cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn gwerthfawrogi a dathlu gwahaniaethau'n dda ac mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd amrywiol er mwyn atgyfnerthu'r agwedd hon ar draws y cwricwlwm.

Mae gan yr ysgol ystod eang o adnoddau o ansawdd priodol sy'n cael eu defnyddio'n dda. Mae'r adeilad yn diwallu anghenion disgyblion yn briodol ac mae safon uchel yr arddangosfeydd yn helpu i greu amgylchedd dysgu symbylus a chyfoethog. Datblygwyd ardal allanol y Cyfnod Sylfaen, a'r cae chwarae er mwyn ehangu'r cyfleoedd i ddisgyblion weithio yn yr awyr agored.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Anfoddhaol** |

**Arweinyddiaeth: Anfoddhaol**

Er yn ofalgar, nid oes gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer datblygiad strategol yr ysgol. O ganlyniad i absenoldeb staff, yn enwedig ar lefel uwch-dîm rheoli, mae'r ysgol mewn sefyllfa staffio ansefydlog. Mae hyn wedi cael effaith andwyol ar safonau carfannau penodol o ddisgyblion. Yn dilyn cyfnod o ad-drefnu cyfrifoldebau dros-dro, mae rolau arwain priodol gan aelodau o staff ac maent yn dechrau gweithio fel tîm. Er hynny, rhy ychydig o effaith mae arweinyddion cwricwlaidd wedi ei gael ar godi safonau.

O ganlyniad i ymyrraeth ddiweddar gan yr awdurdod lleol, mae gan y pennaeth well dealltwriaeth o agweddau cadarnhaol yn yr ysgol yn ogystal ag agweddau y mae angen eu gwella ar frys.

Nid yw arweinyddiaeth wedi cael digon o effaith ar gynnal na chodi safonau ers yr arolygiad diwethaf.

Mae rôl y corff llywodraethol o ran cefnogi a herio'r ysgol wedi'i sefydlu'n briodol. Defnyddiant ddata'n briodol er mwyn adolygu perfformiad yr ysgol a'i gymharu gyda pherfformiad ysgolion eraill. Maent yn ymweld â'r ysgol yn gyson at ddibenion monitro, gan ddarparu adborth adeiladol i'r corff llawn yn rheolaidd. Er nad yw hyn eto wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau, mae'r llywodraethwyr yn cydweithio'n effeithiol gyda'r awdurdod lleol ar hyn o bryd, er mwyn mynd i'r afael â materion strategol pwysig.

Yn unol â blaenoriaethau cenedlaethol, mae'r clwb brecwast a gweithdrefnau addysgu'r Cyfnod Sylfaen wedi eu cyflwyno'n llwyddiannus. Yn ddiweddar, mae cynlluniau priodol ar waith i godi safonau darllen a mathemateg drwy gydweithio ag ysgolion eraill ac arsylwi ar arfer dda.

**Gwella ansawdd: Anfoddhaol**

Mae gan yr ysgol amserlen fonitro sy'n cynnwys rhaglen ar gyfer arfarnu pynciau ac arsylwi ar wersi. Er hynny, nid yw arweinwyr yn rhoi digon o ffocws i ddeilliannau'r weithdrefn hon er mwyn cael effaith gadarnhaol ar godi safonau, ac nid yw'n bwydo adroddiad hunan arfarnu'r ysgol.

Mae'r adroddiad hunan arfarnu yn ddogfen sy'n cynnwys gwybodaeth briodol am ystod eang o agweddau ar fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'n nodi dadansoddiadau data, gan gyfeirio at y tueddiadau mewn perfformiad o gymharu ag ysgolion tebyg ac yn genedlaethol. Er hynny, nid yw'r adroddiad yn ddigon arfarnol er mwyn nodi blaenoriaethau clir ar gyfer gwelliant.

Mae'r cynllun datblygu ysgol yn nodi blaenoriaethau gwelliant ar gyfer y flwyddyn gyfredol. Er hynny, nid oes ffocws digon clir ar godi safonau na'r defnydd priodol o ddangosyddion meintiol ar gyfer mesur effaith.

Nid yw arweinwyr wedi bod yn llwyddiannus wrth reoli newid nac wedi gwneud digon o gynnydd yn erbyn argymhellion arolygiad 2007. Mae hyn yn enwedig mewn perthynas â chynnal safonau, a gwella gweithdrefnau hunan arfarnu.

Mae'r ysgol yn dechrau datblygu fel cymuned ddysgu broffesiynol yn fewnol a thrwy gysylltiadau ag ysgolion eraill, gyda ffocws eleni ar godi lefelau darllen. Mae hyn yn dechrau arwain at welliant mewn safonau. Mae'r ysgol hefyd yn cydweithio'n agos â dwy ysgol arall er mwyn codi safonau mathemateg trwy rannu arfer dda.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Mae'r ysgol wedi meithrin amrediad eang o bartneriaethau sy'n cyfrannu tuag at agweddau ar y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion. Er hynny, rhy ychydig yw effaith y partneriaethau hyn ar ddeilliannau disgyblion dros gyfnod o bedair blynedd.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau priodol gyda rhieni a gofalwyr. Mae'r ysgol yn chwarae rhan flaenllaw o fewn y gymuned leol. Mae disgyblion yn ymweld yn gyson â gwahanol fannau o fewn y pentref, ac yn aml yn croesawu unigolion o'r gymuned i siarad â nhw yn yr ysgol. Mae hyn yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gyfoethogi eu profiadau dysgu a'u hymwybyddiaeth o'u hardal leol.

Mae cyswllt cynyddol yn bodoli'n ddiweddar rhwng yr ysgol, a'r awdurdod lleol yn arbennig wrth gefnogi'r pennaeth ac ym maes rheoli'r cyllid.

Mae cyswllt agos rhwng yr ysgol â'r cylch meithrin, sy'n hwyluso trefniadau derbyn disgyblion. Yn yr un modd, mae trefniadau trosglwyddo'r disgyblion i'r ysgolion uwchradd yn paratoi'r disgyblion hŷn yn dda. Mae'r ysgol yn cydweithio'n briodol gydag ysgolion cynradd eraill yr ardal ynghyd â'r ysgolion uwchradd er mwyn cynllunio adnoddau, sicrhau ansawdd asesiadau o waith disgyblion a rhannu arferion da.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan yr ysgol lefel briodol o athrawon cymwys a phrofiadol er mwyn cyflwyno'r cwricwlwm. Mae trefniadau rheoli perfformiad priodol yn eu lle ar gyfer yr holl staff, sy'n arwain at bennu targedau a threfnu cyfleoedd hyfforddiant i geisio diwallu anghenion yr ysgol ac unigolion. Cynigir cyfleoedd rheolaidd i'r staff fynychu cyrsiau hyfforddi priodol, er enghraifft, i ddatblygu eu rôl fel cydlynwyr pynciau ac ar gyfer datblygu safonau llythrennedd a rhifedd. Er hynny, anghyson yw effaith hyfforddiant ar safonau disgyblion.

Gwneir defnydd priodol o amser cynllunio, paratoi ac asesu'r athrawon sy'n cael effaith gadarnhaol ar les y disgyblion trwy weithgareddau penodol fel addysg gorfforol.

Mae gan yr ysgol ystod eang o adnoddau a gwneir defnydd priodol ohonynt i hyrwyddo'r dysgu.

Mae arweinwyr yn rheoli adnoddau ariannol yr ysgol yn briodol ac yn sicrhau eu bod yn gysylltiedig â'r cynllun datblygu. Caiff y gyllideb ei monitro'n ofalus gan y swyddog cyllid, y llywodraethwyr a'r awdurdod lleol.

O ystyried safonau cyflawniad disgyblion, mae'r ysgol yn darparu gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yn 2012, roedd tua 65% o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn perthynas â'u medrau iaith, mathemateg a phersonol mewn cyfuniad (y dangosydd Cyfnod Sylfaen). Mae hyn yn sylweddol is o'i gymharu â chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a Chymru. Mae'r canran a gyrhaeddodd y lefel ddisgwyliedig hefyd yn is na chyfartaledd y teulu a Chymru yn y meysydd dysgu ar wahân.

Roedd cyfartaledd y disgyblion a gyflawnodd yn uwch na'r lefel ddisgwyliedig ychydig yn uwch na chyfartaledd y teulu a Chymru mewn datblygiad iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg, ond yn is mewn datblygiad mathemategol a phersonol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol.

O gymharu canlyniadau Cyfnod Sylfaen yr ysgol ag ysgolion tebyg o ran y canran o ddisgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, roedd yr ysgol yn perfformio yn yr 50% isaf ar gyfer medrau iaith, ac yn y 25% isaf o ran medrau mathemategol a medrau personol yn 2012.

Yng nghyfnod allweddol 2, roedd tua 79% o ddisgyblion yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig neu uwch mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad (y dangosydd pwnc craidd) yn 2012. Mae hyn yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a Chymru. Mae'r tuedd yn anwastad dros y pedair blynedd ddiwethaf.

Yn 2012, roedd tua 86% o ddisgyblion yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg, sy'n is na'r chyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion tebyg ond ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru. Roedd y canran a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig yn y Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yn is na chyfartaledd y teulu a Chymru. Mae tueddiadau mewn perfformiad dros bedair blynedd yn anwastad.

Mae'r canran a gyflawnodd yn uwch na'r lefel ddisgwyliedig yn is na chyfartaledd y teulu a chyfartaledd Cymru yn y pedwar pwnc.

O gymharu canlyniadau cyfnod allweddol 2 yr ysgol ag ysgolion tebyg o ran y canran o ddisgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, roedd yr ysgol yn perfformio yn yr 50% isaf ar gyfer y Saesneg a'r Gymraeg, ac yn y 25% isaf mewn mathemateg a gwyddoniaeth yn 2012.

Dros gyfnod o bedair blynedd, nid oes patrwm amlwg o wahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn o gymharu â merched, nac ychwaith o gymharu disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim gyda'r gweddill.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Holiaduron disgyblion**

Cafwyd 75 ymateb gan ddisgyblion cyfnod allweddol 2.

Mae pob un o'r farn:

- bod yr ysgol yn eu dysgu sut i aros yn iach.

Mae'r rhan fwyaf o'r farn:

- eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol;
- eu bod yn gwybod pwy i siarad ag ef/hi os ydynt yn poeni neu'n gofidio;
- bod llawer o gyfleoedd yn yr ysgol iddyn nhw gael ymarfer corff;
- bod yr athrawon ac oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd;
- eu bod yn gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydynt yn gweld eu gwaith yn anodd;
- bod eu gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella'u gwaith yn yr ysgol; a
- bod digon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron iddyn nhw wneud eu gwaith.

Mae llawer o'r farn:

- bod yr ysgol yn delio'n dda gydag unrhyw fwlio;
- eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol;
- bod plant eraill yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu gwneud eu gwaith; a
- bod bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

Mae ymatebion y disgyblion yn cymharu'r llai cadarnhaol nag ymatebion cyfartalog disgyblion ar draws Cymru ym mhob datganiad heblaw bod yr ysgol yn eu dysgu sut i aros yn iach.

**Holiaduron Rhieni**

O'r 38 o ymatebion a gafwyd gan rieni:

Mae pob un o'r farn:

- y caiff eu plentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.

Mae'r rhan fwyaf o'r farn:

- bod eu plentyn yn hoffi'r ysgol;
- bod eu plentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol;

- bod eu plentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol;
- bod yr addysgu'n dda;
- bod staff yn disgwyl i'w plentyn weithio'n galed a gwneud ei orau;
- bod staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch;
- bod eu plant yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol;
- bod eu plentyn wedi derbyn cymorth i ymgartrefu'n dda wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol;
- eu bod yn deall y drefn ar gyfer delio â chwynion; a
- bod yr ysgol yn helpu eu plentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb.

Mae llawer o'r farn:

- eu bod yn fodlon gyda'r ysgol yn gyffredinol;
- bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol;
- bod y gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae'r plant yn ei ddysgu yn yr ysgol;
- eu bod yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plentyn;
- eu bod yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem;
- bod amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau ar gael; a
- bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Mae'r mwyafrif o'r farn:

- bod eu plentyn wedi ei baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf.

Mae ymatebion y rhieni yn cymharu'n llai cadarnhaol nag ymatebion cyfartalog rhieni ar draws Cymru ym mhob datganiad ond dau, sef bod yr ysgol yn annog eu plentyn i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd a'u bod yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Huw Watkins | Arolygydd Cofnodol |
| Meinir Howells | Arolygydd Tîm |
| Veronica Williams | Arolygydd Lleyg |
| Gwenda Easton | Arolygydd Cymheiriaid |
| Eluned Jones | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.